

## Coeden Bywyd - Oedfa Dechrau'r Flwyddyn

**Gweddi:** *Wedi i gân yr angylion ddistewi, ac i'r seren gilio o'r ffurfafeno, wedi i'r brenhinoedd a'r tywysogion ddychwelyd adref, wedi i'r bugeiliaid ddychwelyd at eu praidd, bwydo'r newynog, rhyddhau'r carcharor, ailadeiladu'r cenhedloedd, a dwyn heddwch i blith y bobl.* (addaswyd o weddi a gyfansoddwyd gan Howard Thurman; *Cristion*, Nadolig 2009)

Eryn:Gwawriodd blwyddyn newydd eto. o'th drugaredd, Arglwydd cu; (Penar; Caneuon Ffydd 91)

### Darlleniad a Myfyrdod Byr:

Dyma hanes y bydysawd yn cael ei greu: Pan wnaeth Duw y bydysawd, doedd dim planhigion gwyllt na llysiau yn tyfu ar y tir. Doedd Duw ddim eto wedi gwneud iddi lawio, a doedd neb chwaith i weithio ar y tir. Ond roedd dŵr yn codi o'r ddaear ac yn dyfrio wyneb y tir.

Dyma'r ARGLWYDD Dduw yn siapio dyn o'r pridd. Wedyn chwythodd i'w ffroenau yr anadl sy'n rhoi bywyd, a daeth y dyn yn berson byw.

Yna dyma'r ARGLWYDD Dduw yn plannu gardd tua'r dwyrain, yn Eden, a rhoi'r dyn roedd wedi'i siapio yno. Wedyn gwnaeth yr ARGLWYDD Dduw i goed o bob math dyfu o'r tir – coed hardd gyda ffrwythau arnyn nhw oedd yn dda i'w bwyta. Yng nghanol yr ardd roedd y goeden sy'n rhoi bywyd a'r goeden sy'n rhoi gwybodaeth am bopeth – da a drwg. Genesis 2: 4 – 9 Sylwoch chi? Dwy goeden! Coeden sy'n rhoi bywyd a'r goeden sy'n rhoi gwybodaeth am bopeth - da a drwg. Heddiw, rydym am ganolbwyntio ar y goeden gyntaf - y goeden sy'n rhoi bywyd. Yn rhyfedd iawn, ychydig o sylw rydym yn ei roi i'r goeden hon - y llall, y goeden sy'n rhoi gwybodaeth ***am bopeth - da a drwg, y goeden honno sydd wedi mynnu ein sylw ar hyd y canrifoedd, ac o ddyddiau Ysgol Sul i nawr.*** Coeden y Cwmp. Coeden yr Afal. Coeden Adda ac Efa! Nid felly yn yr oedfa hon! Coeden y Bywyd fydd ein thema. Rhaid cyfaddef, er hynny, mai ychydig iawn o sôn sydd yn Y Beibl am y goeden hon. Ar ôl ymddangos yng nghanol Gardd Eden yn ail bennod Llyfr Genesis ni ddown ar ei thraws eto hyd nes i ni gyrraedd Llyfr y Diarhebion. Ugain llyfr yn ddiweddarach a 475 pennod lawr y lein! Ond, chwarae teg mae'n cael tipyn o sylw yn y llyfr hwnnw!

Wrth sôn am ddoethineb mae awdur Llyfr y Diarhebion yn cyffelybu doethineb i “(g)oeden sy’n rhoi bywyd i’r rhai sy’n gafael ynddi, ac mae’r rhai sy’n dal gafael ynddi mor hapus!” (Diarhebion 3:18). Fe’n hatgoffir, nes ymlaen yn y llyfr, bod “byw yn iawn yn dwyn ffrwyth, fel coeden sy’n rhoi bywyd; ond mae trais yn lladd pobl.” (Diarhebion 11: 30) ac eto, dwy bennod yn ddiweddarach, “Mae gobaith sy’n cael ei ohirio yn torri’r galon, ond mae dymuniad sy’n dod yn wir fel pren sy’n rhoi bywyd.” (Diarhebion 13: 12) Mewn byd a chymdeithas lle mae cymaint o fynd a dod, o bobl yn dweud hyn ac yn dweud y llall, o ffug newyddion, efallai mai da o beth fyddai i bob un ohonom gofio’r adnod hon o Lyfr y Diarhebion: “Mae gair caredig fel coeden sy’n rhoi bywyd, ond mae dweud celwydd yn torri calon.” (Diarhebion 15: 4) A dyna ni wedyn! Dim sôn am Goeden y Bywyd trwy weddill yr Hen Destament na’r Testament Newydd hyd nes i ni gyrraedd y llyfr olaf, Llyfr y Datguddiad. Cyfeirir at y Goeden y Bywyd yn neges Ioan i’r eglwys yn Effesus: “Gwrandewch yn ofalus ar beth mae’r Ysbryd yn ei ddweud wrth yr eglwysi”, meddai, “Bydd y rhai sy’n ennill y frwydr yn cael bwyta o goeden y bywyd sydd ym Mharadwys Duw.” (Datguddiad 2: 7) Wrth gwrs, paradwys oedd Gardd Eden, ac fel y clywsom ar y dechrau, yno, yng nghanol yr Ardd, y tyfai pren y bywyd. Felly, dyma gysylltu llyfr cyntaf Y Beibl â’r llyfr olaf. Neidio wedyn i bennod olaf Llyfr y Datguddiad ac yn y bennod honno, ym Mhennod 22, ceir tri chyfeiriad at y goeden arbennig hon. Cawn wybod bod “coed y bywyd bob ochr i’r afon yn rhoi deuddeg cnwd o ffrwythau - cnwd newydd bob mis. Mae dail y coed yn iacháu'r cenhedloedd.” (Dat 22: 2); darllenwn hefyd bod y “rhai sy’n glanhau eu mentyll wedi’u bendithio’n fawr, ac yn cael mynd at goeden y bywyd, ac yn cael mynediad drwy’r giatiau i mewn i’r ddinas.” (Datguddiad 22: 14) Ond, mae yna rybudd ar ddiwedd y bennod: “os bydd unrhyw un yn dileu rhan o neges broffwydol y llyfr hwn, bydd Duw yn cymryd oddi arnyn nhw eu siâr o goeden y bywyd a’u lle yn y ddinas sanctaidd sy’n cael ei disgrifio yn y llyfr hwn.” (Dat 22: 19)

**Emyn:** Gwna fi fel pren planedig. O fy Nuw, yn ir ar lan afonydd dyfroedd byw, yn gwreiddio ar led, a’i ddail heb wywo mwy, yn ffrwytho dan gawodydd dwyfol glwy’. (1. Ann Griffiths, 2. Anad. Caneuon Ffydd 756)

**Gweddi (gellir rhannu’r weddi mewn gwahanol ffyrdd i gynnwys o un i grŵp o bobl):** Gobaith a llawenydd ar ddechrau blwyddyn. Ar ddechrau blwyddyn newydd, yn ansicr o’r daith sydd yn ein hwynebu, cynorthwya ni i dy weld am y Duw wyt ti. Bydd yn gymorth ac yn gynhالياeth i ni wrth gerdded llwybr ein

bywyd ac yn arbennig felly yn ystod y dyddiau a'r oriau anodd. A boed i sicrwydd dy addewidion fod yn gyfrwng llawenydd a gobaith. **Cofiwn - y rhai sy'n byw mewn ofn ac ansicrwydd. O ble y daw fy ngobaith?** Yng nghanol bywyd a'i dreialon, yn ddigyfeiriad ar adegau, diolchwn i ti, Arglwydd, dy fod yn Dduw tragwyddol, yn gymaint rhan o'n yfory ag yr wyt o'n heddiw. Felly, datganwn mai ti yw gwir ffynhonnell ein gobaith. Mewn gwyleidd-dra, ymddiriedwn ynot. **Cofiwn - y rhai sy'n ymddiried yn yr hyn sy'n darnio a difetha bywydau. Gobaith - o genhedlaeth i genhedlaeth:** Diolch, Arglwydd, dy fod wedi sicrhau tystion ym mhob cenhedlaeth. Yn y dydd sydd ohoni rho nerth a gallu i bawb sy'n tystio i'th gariad a'th drugaredd, a chaniatâ i'th wirionedd dreiddio o'r newydd i galonnau dynion. **Cofiwn am blant ac ieuentid ein gwlad. Gobaith y Cenhedloedd:** Arglwydd heddwch a thangnefedd, bydd yn agos at y rhai sy'n dioddef effeithiau rhyfel a chasineb. Yng nghanol sefyllfaoedd dyrys y byd caniatâ i ni weld a chredu o'r newydd yng Nghrist, y gwas a ddaeth nid i ddinistrio bywyd ond i greu ac yn hynny y bydd gobaith y cenhedloedd. **Cofiwn am y gwledydd sydd eto i brofi heddwch.**

**Gorfoleddu yn y gobaith.** Drugarog Dad, gweddiwn dros y rhai sy'n byw eu bywydau dan amgylchiadau anodd a dyrys. Bydd yn agos atynt a boed i brofiad dy gariad fod yn gyfrwng cysur a chynhaliaeth. Rho iddynt nerth i ddyfalbarhau a llawenydd yn y sicrwydd hwnnw o'u gwobr nefol. **Cofiwn am y rhai sy'n tystio dan amgylchiadau anodd. Llawenhewch, genhedloedd.** Wrth gofio am y rhai a deithiodd o bell i geisio dy Fab Iesu Grist, cofiwn am y rhai sy'n dal i deithio, y rhai hynny sy'n dal i geisio gwneud synnwyr o'th ymwneud trugarog - dyn ym mherson a gwaith dy Fab. Boed i'th oleuni lewyrchu yn eu calon a'u dwyn o'r newydd i'r gwirionedd. **Cofiwn am y rhai sydd eto heb glywed am Iesu. Crist ynom.** Clod i'th enw sanctaidd dy fod, er ein beiau a'n ffaeleddau, yn parhau i ymwneud â ni yn dy drugaredd. Agor ein meddyliau a'n calonnau'n ddyddiol i'r ddealltwriaeth o 'Grist Ynom' a boed i'r ymwybyddiaeth honno ein llenwi â phob gallu a nerth. **Cofiwn am y rhai sy'n ei chael yn anodd i amgyffred y 'Dirgelwch'.**

**Duw ar waith.** Arglwydd, rwyt ti'n awdur bywyd, yn dragwyddol yn dwyn trefn allan o anhrefn. Diolch am dy drugaredd tuag atom yng Nghrist a'r modd y bu i ti ein geni o'r newydd. Trwy weinidogaeth dy Lân Ysbryd boed i ti barhau dy waith yn ein calonnau a'n gwneud yn bobl greadigol yn dy bethau di. **Cofiwn am y rhai sydd yn methu gweld Duw ar waith.** Cyflwynwn ein hunain ar ddechrau

*blwyddyn i weithredu yn enw dy annwyl fab, ein gwardwr, Iesu Grist. Amen*  
(Cyd-adrodd neu gyd-ganu **Gweddi'r Arglwydd.**) (Addaswyd o weddi a gyhoeddwyd yn 'Gair y Dydd' (Ionawr-Mawrth 2012) a luniwyd gan Eglwys Capel y Morfa, Aberystwyth)

**Sgwrs i'r Plant:** Os oes cyfle a dymuniad gellir cyflwyno'r cysyniad o Bren y Bywyd / Coeden Bywyd i blant sydd yn yr oedfa trwy gyfeirio a holi am 'Goeden Raf(f)iki' yng nghyfres ffilmiau poblogaidd *The Lion King*. Mae'r goeden a'r cymeriad Raf(f)iki wedi ymddangos ymhob un o'r ffilmiau. Mae Raf(f)iki yn ffrind ('ffrind' yw ystyr yr enw Raf(f)iki) a chynghorydd y teulu brenhinol; mae ganddo hefyd wybodaeth am draddodiadau a hanes y teulu. Felly, ef sydd yn eu cynghori am y dyfodol, tra ar yr un pryd yn sicrhau ei bod aawcofio a gwybod am eu gorffennol. Tyf y goeden - coeden baobab - yng nghanol tiroedd y *Pride Lands*. Gellir datblygu thema Coeden Raf(f)iki i sôn am bwysigrwydd cyfeillgarwch, cefnogaeth a chymdeithas (ddoe, heddiw ac yfory). Os oes offer priodol ar gael i ddefnydd yr oedfa gellir dangos darn o'r ffilm *The Lion Guard*: achub Coeden Raf(f)iki: Diolchwn, ein Tad, am ysbytai ein gwlad, a phob cartref sy'n agored i

gynorthwyo'r gwan, yr unig a'r tlawd. Diolchwn am law meddyg a nyrs i estyn meddyginaeth dy gariad.

'Llaw a deall dyn perffeithia,

Er iachâd

A rhyddhad,

Nefol Dad, i dyrfa.'

Wrth inni weddio dros ein cyfeillion, gwna ni, ein Tad, yn ddiolchgar am

fendith iechyd, am fwynhad bywyd, am gysuron cartref, am gariad

anwyliaid a theyrngarwch cyfeillion. Gwna inni sylweddoli mor dda yw

hi arnom mewn gwirionedd, ac mor llwyr ddibynnol yr ydym arnat ti.

Derbyn felly ein diolch am holl fendithion bywyd, ac am y fendith

fwyaf o gael dy Fab Iesu Grist yn Waredwr ac yn Arglwydd ein bywyd.

Ac iddo ef y byddo'r clod a'r gogoniant, yn awr ac yn oes oesoedd.

Amen.

**Gweddi'r offrwm:**

Ein Tad trugarog, caniatâ dy fendith ar ein hoffrwm, ac arnom ni dy

blant. Er mwyn Iesu Grist. Amen.

Emyn: 581 – O Arglwydd, dyro awel

Llefarydd:

Er bod ein bywydau fel Jacob yn llawn methiannau, ni olyga hynny y

dylem roi'r ffidil yn y to. Yn hytrach, dylem edifarhau am ein pechodau

gerbron Duw, ymddiried yn ei gariad diymollwng tuag atom yn Iesu

Grist, ac ymdrech trwy nerth ei ras i adnewyddu ein haddunedau i'r

Arglwydd.

Rydym yn cysylltu addunedau Cristnogol gan amlaf â'r

gwasanaeth pan

Os oes Ysgol Sul yn dilyn, gellir, er enghraifft, defnyddio adnodd lliwio Undeb yr Annibynwyr Cymraeg:

[https://annibynwyrmy.sharepoint.com/personal/rhodri\\_annibynwyr\\_cymru/\\_layouts/15/onedrive.aspx?id=%2Fpersonal%2Frhodri%5Fannibynwyr%5Fcymru%2FDocuments%2Fadnoddau%20Madagascar%2FBaobab%20i%20liwio%2Ejpgpar](https://annibynwyrmy.sharepoint.com/personal/rhodri_annibynwyr_cymru/_layouts/15/onedrive.aspx?id=%2Fpersonal%2Frhodri%5Fannibynwyr%5Fcymru%2FDocuments%2Fadnoddau%20Madagascar%2FBaobab%20i%20liwio%2Ejpgpar)

[ent=%2Fpersonal%2Frhodri%5Fannibynwyr%5Fcymru%2FDocuments%2Fadnoddau%20Madagascar&slrid=f610959e-7099-6000-020f-715d81048469](http://ent=%2Fpersonal%2Frhodri%5Fannibynwyr%5Fcymru%2FDocuments%2Fadnoddau%20Madagascar&slrid=f610959e-7099-6000-020f-715d81048469)

**Emyn:** *Yn gymaint iti gofio un o'r rhainA rhannu'n hael dy grystyn gyda'r tlawd,* (Peter M Thomas; C. Ffydd 854)

**Anerchiad / Cyflwyniad:** *Yma, ceir amlinelliad o gyfeiriad sgwrs y gellir ei defnyddio i gydio dechrau blwyddyn newydd ag Apêl Madagascar. Mae dechrau blwyddyn yn gyfle priodol i ail-gydio mewn ymgyrch a chynllun. Dylid defnyddio'r wybodaeth isod i ddatblygu themâu yn cylchdroi o amgylch y ffaith bod y goeden baobab, Coeden Bywyd, yn gwbl ganolog i fywyd a bodolaeth pobl a byd natur Madagsacar.*

Pam sôn am Goeden Bywyd ar ddechrau blwyddyn newydd? Ar ddechrau 2019 onid da yw atgoffa ein hunain o'n gwaith fel Cristnogion i gynorthwyo a chefnogi ein brodyr a'n chwiorydd ar draws y byd. Logo Apêl Madagascar yw'r goeden baobab. Mae'r baobab yn goeden o bwys ym Madagascar. Gelwir hi'n 'Goeden Bywyd', a gwarchodir hi'n ofalus. Fel *Adansonia* yr adnabyddir hi fel arfer gan fotanegwyr, a hynny ar ôl y naturiaethwr a'i disgrifiodd gyntaf - Ffrancwr o'r enw Michel Adanson. Gair Ethiopiaidd, neu o leiaf Affricanaidd, yw baobab, yn golygu coeden â boncyff trwchus, blodau gwyn a ffrwyth sy'n fwyfadwy.

Y rhywogaeth a gysylltir amlaf â Madagascar yw *Adansonia grandideri*, y mwyaf a'r enwocaf o goed yr ynys. Gall dyfu i uchder o 25-30 metr (100 troedfedd), a mesur rhyw 3 metr (10 troedfedd), a mwy, ar draws ei boncyff. **Mae'r coed yn sicrhau cysgod, bwyd a dŵr i anifeiliaid a phobl fel ei gilydd, ac adeilada llawer o gymunedau'r safanna yn Affrica eu cartrefi yn agos atynt - Coeden Bywyd yn wir!** Mae eu gallu i storio dŵr yn eu boncyffion yn rhyfeddol, gyda rhai ohonynt yn cynnwys cymaint â 30,000 o alwyni. Galluoga hyn hwy i oroesi sychder mawr. Coed collddail ydynt; colli eu dail yn ystod y tymor sych rhag iddynt golli dŵr trwy drydarthiad. Y maent, wrth reswm, yn gynefin pwysig i adar nythu. Hefyd, mae ffrwyth y baobab, sydd tua maint cneuen goco, â blas 'sherbert' iddo. O'i sychu, mae'r powdwr yn uchel mewn pectin, calsiwm, magnesiwm, potasiwm, haearn - a Fitamin C, a hynny chwe gwaith cymaint ag oren o'r un maint! Gellir ei ddefnyddio fel tewychwr mewn cawl a jamiau, fel melysydd mewn diodydd, ac i roi 'mymryn bach o gic' mewn saws! Defnyddir rhai rhywogaethau baobab fel ffynhonnell ffibr, lliwiau a thanwydd. Defnyddir y ffibr i wneud toau tai. Yn 2003 cafwyd datganiad gan

Arlywydd Madagascar yn dweud bod angen cynyddu nifer y coed deirgwaith i osgoi difodiant rhai o'r

rhywogaethau. Er eu holl rinweddau, maent dan fygythiad. Gall coeden baobab fyw i fod tua 5,000 mlwydd oed.

**Emyn:** *Tydi yw'r wir Winwydden, Iôr, Sy'n fythol ir a byw, (Arthur Williams, l Caneuon Ffydd 285)*

**Bendith:** Cryfha ni, ysbrydola ni, arfoga ni, arwain ni yn dy wasanaeth, yn enw'r Crist. Am bopeth rwyf yn ei wneud drwyddo, derbyn ein moliant. Amen